

CYMDEITHAS TAI WALES & WEST

ADRODDIAD I'R BWRDD – 25 MAWRTH 2021

COMISIYNYDD Y GYMRAEG – DIWEDDARIAD BLYNYDDOL

1.0 Cyflwyniad

- 1.1 Cymeradwywyd Cynllun yr Iaith Gymraeg (WLS) Tai Wales & West (WWH) gan y Bwrdd ym mis Medi 2010, ac fe'i cymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg (WLB) ym mis Rhagfyr 2010.
- 1.2 Mae gofyn cyflwyno diweddariad blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg (WLC), fel y mae gofyn i'r holl gymdeithasau tai eraill yng Nghymru ei wneud. Mae'r diweddariad blynyddol yn cynnwys y cyfnod rhwng mis Mawrth 2020 a mis Chwefror 2021. Mae'r adroddiad yn cynnwys yr holl weithgareddau a gyflawnir ar draws y Gymdeithas. Cyflwynir papur ar wahân i fyrddau'r is-gwmnïau ym mis Mai (Mentrau Castell a Cambria), a fydd yn cynnig trosolwg o'r arferion presennol mewn perthynas â'r iaith Gymraeg ar draws y rhannau hynny o'r Grŵp.
- 1.3 Yn ystod 2020, mae'r Gymdeithas wedi cynnal ei hymrwymiad i'r iaith Gymraeg ac mae wedi bod yn bwysicach nag erioed cyfathrebu gyda phreswylwyr yn eu dewis iaith. Er gwaethaf y sialensiau a achoswyd gan bandemig Covid 19 dros y 12 mis diwethaf, mae WWH wedi parhau i ddarparu gwasanaeth dwyieithog a chyfathrebu mewn ffordd ddwyieithog, gan annog defnydd o'r iaith Gymraeg mewn ffordd weithredol, er mwyn cael effaith gadarnhaol a hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg o fewn y Gymdeithas.

2.0 Sgiliau Cymraeg

- 2.1 Ar hyn o bryd, mae'r Gymdeithas yn cynnwys 147 aelod o staff sy'n siarad Cymraeg, ac mae'r Gymraeg yn famiaith 46 o'r rhain.
- 2.2 Mae pob aelod o staff yn y Gymdeithas wedi cwblhau hunanasesiad o'u sgiliau Cymraeg, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Cesglir gwybodaeth am lefelau rhuglder cyflogeion newydd fel rhan o'u harchwiliadau cyn cychwyn cyflogaeth. Cofnodwyd sgiliau ysgrifenedig ac ar lafar ar wahân ar system AD y Gymdeithas, Cascade. Trwy gadw'r data mewn porth canolog, gall staff ddiweddarau gwybodaeth am lefelau rhuglder wrth iddynt newid. Caiff siaradwyr Cymraeg eu hyrwyddo ar dudalen benodedig ar y fewnrwyd, er mwyn nodi ac annog defnydd o'r iaith o fewn y Gymdeithas ac er mwyn cynorthwyo mewn ffyrdd ymarferol megis mentora a chyfieithu neu gyfieithu ar y pryd.
- 2.3 Yn ogystal, mae gan nifer o aelodau'r Bwrdd sgiliau amrywiol o ran y Gymraeg.

3.0 Hyfforddiant Cymraeg

- 3.1 Mae 23 aelod o staff, gan gynnwys Prif Weithredwr y Grŵp (GCE) wedi bod yn dysgu Cymraeg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae dau o'r staff hyn wedi bod yn mynychu dosbarthiadau nos ac mae'r staff sy'n weddill yn parhau i fanteisio ar adnoddau amrywiol gan gynnwys 'Say Something in Welsh' a mynychu cyrsiau dwys a defnyddio apiau a

llyfrau. Mae'r ddau aelod o staff sy'n mynychu dosbarthiadau nos wedi symud ymlaen i'r lefel Ganolradd.

- 3.2 Mae nifer o aelodau'r Bwrdd yn parhau i ddysgu Cymraeg. Ni fu modd cynnal dosbarthiadau, felly maent wedi bod yn dibynnu ar apiau fel 'Say Something in Welsh' ac maent wedi mynegi eu bwriad i barhau gyda'u dysgu ar ôl pandemig Covid 19.
- 3.3 Mae WWH wedi cynorthwyo dysgu a chynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg trwy gyfrwng ap ar-lein. Yn ystod 2020-21, ymunodd deg o ddysgwyr presennol a dysgwyr newydd gyda pheilot chwe mis 'Say Something in Welsh'. Mae'r cwrs iaith ar-lein, sy'n addo y bydd yr holl ddysgwyr ymroddedig yn siaradwyr Cymraeg hyderus ymhen chwe mis, yn cynnwys tasgau ar-lein wythnosol a galwadau fideo ar gyfer grwpiau. Cychwynwyd y peilot ym mis Awst 2018 ac fe'i ariannir gan WWH. Yn ystod 2020/21:
- Llwyddodd dau aelod o staff i gwblhau'r dewis 6 mis;
 - Estynnodd dau aelod o staff eu dysgu i ddewis 12 mis;
 - Penderfynodd pum aelod o staff oedi eu dysgu; ac
 - Mae pedwar aelod o staff, y mae dau ohonynt yn perthyn i'r cyfnod adrodd blaenorol, yn parhau gyda'u dysgu ar gwrs dilynol 'Say Something in Welsh', sef 'In at the Deep End' ac mae dau ychwanegol wedi cofrestru yn ystod 2020.
- 3.4 Bu'r adborth gan y ddau unigolyn a gwblhaodd gwrs 'Say Something in Welsh' yn gadarnhaol, gan nodi bod y dull dysgu wedi bod yn addas i'r arddull dysgu y maent yn ei ffafrio. Mae'r adborth a gafwyd gan ddysgwyr yn gyffredinol wedi nodi y bu'r dysgu yn anos yn rhannol oherwydd ymrwymadau gofalu, dysgu plant gartref a'r ffaith na allant ddilyn eu trefn ddyddiol o ddysgu'r iaith oherwydd canllawiau a chyfnodau clo dilynol Llywodraeth Cymru (LIC).
- 3.5 Er mwyn hyrwyddo gweithle dwyieithog, mae teilsen 'Dysgu Cymraeg' yn parhau i ymddangos mewn man amlwg ar dudalen flaen y fewnrwyd, ac ar ôl troi ati, mae'n darparu manylion yr holl gyfleoedd dysgu gan gynnwys gwybodaeth am 'Say Something in Welsh'. Yn ogystal, mae'n darparu manylion am yr holl siaradwyr Cymraeg yn y Gymdeithas, sy'n cynorthwyo gyda mentora anffurfiol, adnoddau defnyddiol, dyddiadau a manylion digwyddiadau mewnol a diwylliannol Cymreig, ymadrodd yr wythnos, templed dwyieithog ar gyfer negeseuon e-bost pan fyddwch allan o'r swyddfa, a gweithgareddau a chyfleoedd i gynorthwyo a chynyddu lefelau hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg.

4.0 Hyrwyddo'r Gymraeg

- 4.1 Yn ystod y cyfnod y rhoddir sylw iddo yn yr adroddiad hwn, bu sawl achos pan hyrwyddwyd y Gymraeg gan gynnwys Dydd Gŵyl Dewi, ciniawau Cymreig yn y dair swyddfa gan ddefnyddio dolen fideo, Diwrnod "Shwmae Su'mae", digwyddiad a gynhelir ar draws Cymru er mwyn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg. Yn ogystal, roedd WWH wedi cymryd rhan yn Niwrnod cenedlaethol Hawliau Cymraeg er mwyn dathlu a hyrwyddo'r gwasanaethau Cymraeg a gynigir gan WWH, a chan amlygu'r hawliau sydd gan bobl i ddefnyddio'r iaith Gymraeg pan fyddant yn delio gyda WWH. Yn ogystal, cychwynwyd adran 'A wyddoch chi' ar y brif dudalen ar y fewnrwyd ym mis Hydref 2020, a chaiff hon ei diweddarau bob mis. Mae ar gael i'r holl staff ei gweld ac mae'n cynnwys ffeithiau diwylliannol dwyieithog, mae'n hyrwyddo digwyddiadau ar-lein, traddodiadol a dyfeiswyr

Cymreig enwog, ac mae'n cynnig enwau lleoedd Cymraeg. Edrychwyd ar yr adran bron i 2,000 gwaith at ei gilydd.

4.2 O ganlyniad i bandemig Covid 19, ni fu modd cefnogi pob digwyddiad (megis Ras yr Iaith) na datblygu gwaith i'w wneud mewn partneriaeth gyda Mentrau Iaith a Chylchoedd Meithrin o ganlyniad i gyfyngiadau LIC. Fodd bynnag, bydd cefnogi'r digwyddiadau yn cael ei gynnwys yn y cynllun gweithredu o hyd fel camau i'w cymryd yn y dyfodol, a byddant yn cychwyn pan fo hynny'n ymarferol.

4.3 Hyrwyddwyd yr iaith Gymraeg yn y ffyrdd canlynol hefyd:

- Hyrwyddo gwasanaethau yn y Gymraeg trwy ddefnyddio brand Iaith Gwaith, sy'n dynodi siaradwyr Cymraeg. Mae'r troednodyn e-bost sy'n dangos y croesawir gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg yn cael ei gynnwys yn negeseuon e-bost allanol yr holl siaradwyr Cymraeg. Yn ogystal, cynigir bathodynau a laniardiau Iaith Gwaith i'r holl staff sy'n dysgu neu sy'n rhugl, er mwyn iddynt gael eu hadnabod a bod modd i bobl arall gychwyn sgwrs gyda nhw yn Gymraeg.
- Cynhaliodd WWH ddigwyddiad ymgynghori yn Aberteifi er mwyn cynnig y cyfle i bobl leol drafod y cam o adfywio safle'r ysbyty yn y dref; roedd mwyafrif y staff yn y digwyddiad yn siaradwyr Cymraeg rhugl ac roedd yr holl wybodaeth yn y digwyddiad ar gael yn ddwyieithog.
- Darparwyd hyfforddiant dwyieithog ynghylch 'Cyflwyniad i Chwarae' mewn cymunedau lleol e.e., Tregaron a Felin-fach.
- Mynychwyd digwyddiad gofalwyr yng Ngheredigion a oedd yn cynnwys arddangosfa ddwyieithog, ac roedd aelod o staff yn bresennol a oedd yn siarad Cymraeg.
- Atebodd siaradwyr Cymraeg yn y Gymdeithas alwadau lles yn ystod 2020 a 2021, a fu'n gyfle i breswylwyr siarad Cymraeg.
- Datblygwyd cyfeiriadur cymunedol dwyieithog ar gyfer preswylwyr er mwyn eu cynorthwyo yn ystod y cyfnod clo.
- Ymrwymwyd i bartneriaeth gyda dwy ysgol gynradd trwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn cynorthwyo i ddewis enwau ar gyfer dau ddatblygiad newydd yn eu cymunedau (y datblygiadau ym Maenclochog a Thre Iwan).
- Ymrwymwyd i bartneriaeth gyda Phrosiect Gweithredu Gwledig Cwm Taf i ailgysylltu enwau lleoedd a thirluniau lleol, a deall eu harwyddocâd a'r hanes y tu ôl i'w henwau <http://culturalconnections.wales/>
- Yn hanesyddol, mae'r Gymdeithas wedi noddi digwyddiadau niferus dros y blynyddoedd diwethaf, fodd bynnag, oherwydd pandemig Covid 19, bu'r cyfleoedd yn gyfyngedig. Er hyn, yn ystod y cyfnod adrodd, noddwyd sawl grŵp gan y Gymdeithas, a gostiodd £19,000 at ei gilydd, er mwyn cynorthwyo i ddarparu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg:-
 - Rhodd i ymgyrch genedlaethol Tarian Cymru er mwyn helpu i warchod gofalwyr yng Nghymru er mwyn iddynt allu prynu PPE y mae cryn angen amdano ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal.
 - Cefnogi menter ddarllen ym Merthyr Tudful trwy ddarparu nawdd er mwyn talu am 80 o becynnau darllen i blant fel rhan o Wyl Dwli Darllen Ymddiriedolaeth Stephens & George.

- Cyfrannwyd at 'Gynllun Grant Cyllideb Gyfranogi' Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu er mwyn cynorthwyo prosiectau mewn cymunedau lleol fel Llanbedr Pont Steffan, Aberteifi ac Aberystwyth.
- Cafodd Ysgol y Frenni, Crymch grant i gael offer ar gyfer eu gorsaf radio ac er mwyn prynu iPads.

5.0 Cyfathrebu yn Gymraeg

- 5.1 Mae nifer fach o breswylwyr (79 at ei gilydd) wedi nodi eu bod yn dymuno cyfathrebu gyda'r Gymdeithas yn Gymraeg ac maent wedi nodi'r dewis y maent yn ei ffafrio o ran darpariaeth ysgrifenedig, llafar neu'r ddau. Yn ogystal, mae 1,344 o breswylwyr yn cael copiau dwyieithog o In Touch.
- 5.2 Mae gwybodaeth yn cael ei chasglu o hyd mewn perthynas â dewis iaith fel rhan o'r gwaith o lunio proffil preswylwyr. Cedwir data ynghylch dewis iaith 67% o breswylwyr ac mae modd diweddar hon yn ddigon hawdd trwy gyfrwng Resco, yr ap gwaith symudol, neu ei diweddar'u uniongyrchol yng nghronfa ddata Dynamics. Mae dewis ar gael i'r holl staff ei weld, ac mae gohebiaeth a gychwynnir gan WWH yn Gymraeg neu yn Saesneg, fel y nodwyd gan y preswylwyr pan fo manylion ynghylch dewis wedi cael eu casglu. Anfonir copi dwyieithog o'r holl ohebiaeth yng Ngorllewin Cymru, a bydd hyn yn parhau nes caiff gwybodaeth lawn am ddewis iaith ei sicrhau ar gyfer y preswylwyr hyn. Yn ystod y cyfnod adrodd, adolygwyd a symleiddwyd y cwestiwn dewis iaith yn yr holiadur Proffil Preswylwr, er mwyn casglu data cywir.
- 5.3 Mae WWH yn parhau i groesawu galwadau a chyfathrebu yn Gymraeg. Pan fydd rhywun yn ffonio prif rif ffôn WWH, bydd y neges gyntaf yn cynnig dewis iaith i bobl. Caiff pob galwad a wneir yn ystod oriau swyddfa ac sy'n dewis y Gymraeg eu cyfeirio at siaradwyr y mae'r Gymraeg yn famiaith iddynt. O ganlyniad i ganllawiau LIC, ym mis Mawrth 2020, dargyfeiriwyd yr holl alwadau i ffonau symudol aelodau o staff, felly ni fu modd casglu data rhwng mis Mawrth a mis Medi 2020, felly ni fu hi'n bosibl cymharu yn erbyn data hanesyddol. Ailgyflwynwyd y brif system ffôn ym mis Medi 2020 a bu'n gweithio fel yr arferai weithio, a chafwyd 343 galwad trwy'r linell Gymraeg rhwng mis Hydref 2020 a mis Chwefror 2021, o'i chymharu gyda 24,290 trwy'r linell Saesneg.
- 5.4 Mae WWH yn defnyddio gwasanaeth cyfieithwyr Cymraeg proffesiynol yn ogystal â defnyddio staff dynodedig sy'n ymateb ac yn blaenoriaethu gwaith yn unol ag anghenion y Gymdeithas. Cyflawnir yr holl waith prawffdarllen yn fewnol a chan wahanol gyfieithydd er mwyn cael barn annibynnol, sy'n sicrhau bod pob darn o waith yn gyson ac yn defnyddio terminoleg safonol. Adolygwyd y weithdrefn gyfieithu a gyflwynwyd ar ôl y cyhoeddwyd dogfen gynghori WLC, 'Drafftio Dwyieithog, Cyfieithu a defnyddio'r Gymraeg wyneb yn wyneb' yn 2020, ac mae ar gael ar fewnrwyd y staff.
- 5.5 Mae gwefan WWH yn hollol ddwyieithog ac yn addas i'w defnyddio ar ffôn symudol. Yn ystod 2020, mae wedi cael ei gweld gan ymwelwyr allanol 68,758 gwaith yn Saesneg ac 810 gwaith yn Gymraeg. Y dudalen yr edrychwyd arni fwyaf yn Gymraeg oedd y dudalen ynghylch Covid 19, sef 203 gwaith, a ddilynwyd gan dudalen Chwilio am Gartref (154) a'r dudalen Gyrfaoedd (144). Mae dogfen WLS ac Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg ar gael ar y wefan. Mae'r Gymdeithas yn defnyddio nifer o blatfformau cyfryngau cymdeithasol hefyd, gan gynnwys Facebook, Instagram a Twitter er mwyn

rhannu negeseuon corfforaethol, newyddion a manylion swyddi yn Gymraeg ac yn Saesneg.

- 5.6 Mae'r protocolau mewnol ac allanol am yr iaith Gymraeg wedi bod mewn grym er mis Medi 2017 ac fe'u hadolygir bob dwy flynedd. Mae'r protocolau, sydd ar gael ar fewnwyd y staff, yn cynnig arweiniad am y ffordd y mae WWH yn darparu gwasanaethau yn Gymraeg yn fewnol ac yn allanol. Mae'r protocolau'n datblygu'r WLS a gymeradwywyd, a gwneir mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn dogfennau mewnol ac allanol. Mae'r holl arwyddion yn swyddfydd WWH yn rhai dwyieithog.
- 5.7 Yn dilyn adolygiad o'r canllawiau a'r rhestr gyfeirio hunanreoli a gyhoeddwyd gan WLC, mae nifer y swyddi gwag a newydd yn ystod y flwyddyn adrodd wedi cael eu cynnwys yn niweddariad blynyddol 2020/2021. Rhwng mis Mawrth 2020 a mis Chwefror 2021, hysbysebwyd 54 o swyddi newydd neu wag, yr hysbysebwyd pob un ohonynt yn ddwyieithog. Roedd pob un yn nodi bod sgiliau Cymraeg yn ddymunol ym mhroffil y rolau, er nad oedd gan unrhyw rolau ofyniad penodol ynghylch yr iaith Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

6.0 Cwynion

Ni chafwyd unrhyw gwynion mewn perthynas â'r iaith Gymraeg yn ystod y cyfnod.

7.0 Diweddariad am weithredu Safonau'r Gymraeg

Oedwyd y rhaglen o baratoi safonau yn 2018-19 o ganlyniad i'r cam o ail-archwilio deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg, ac o ganlyniad i bandemig Covid 19 a LIC yn ail-flaenoriaethu adnoddau, bu oedi pellach. Mae LIC wedi cadarnhau y bydd yr adolygiad o'r rhaglen a'r amserlen er mwyn cyflwyno safonau ar gyfer sectorau a chyrrff newydd yn cychwyn yn dilyn etholiadau'r Senedd ym mis Mai. Bydd y Gymdeithas yn parhau i fonitro datblygiadau a'r ffordd y gallai hyn effeithio ar y Gymdeithas o bosibl.

8.0 Cynllun gweithredu a chyfathrebu gyda Chomisiynydd y Gymraeg

Ni fu unrhyw argymhellion na diwygiadau ar ôl y cyflwynwyd cynllun gweithredu ac adroddiad monitro blynyddol 2019/20 i WLC. Os bydd y Bwrdd yn ei gymeradwyo, cyflwynir yr adroddiad monitro a'r cynllun wedi'i ddiweddarau yn Atodiad 1 i WLC yn y ffordd arferol. Mae'r Gymdeithas wedi ysgrifennu at WLC i geisio cymeradwyaeth i ddiweddarau'r WLS yn unol â newidiadau staffio a newidiadau eraill. Ar ôl ei gymeradwyo, bydd y fersiwn newydd yn disodli'r fersiwn presennol ar y wefan.

9.0 Argymhellion

ARGYMHELLIR y dylai'r Bwrdd: -

- i. nodi'r adroddiad; a
- ii. chymeradwyo'r cynllun gweithredu yn Atodiad 1.

Alex Stephenson

Cyfarwyddwr Gweithredol (Technoleg a Thrawsnewid)

18 Mawrth 2021

Comisiynydd y Gymraeg – Diweddariad Blynyddol 2020/21 – Cynllun Gweithredu yr Iaith Gymraeg

Gweithredu	Tasg	Dyddiad targed	Grŵp sy'n gyfrifol
Hyfforddiant Cymraeg	Parhau i hyrwyddo cyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg	Parhaus	Tîm Dysgu a Datblygu
	Annog yr holl gyflogeion i gymryd rhan a dysgu'r iaith Gymraeg	Parhaus	Tîm Dysgu a Datblygu
	Parhau i hyrwyddo hyfforddiant 'Say Something in Welsh'	Parhaus	Tîm Dysgu a Datblygu
	Parhau i sicrhau a choladu adborth am gyfleuster hyfforddiant Cymraeg 'Say Something in Welsh' ac 'In at the Deep End' os yw hynny'n berthnasol	Rhagfyr 2021	Tîm Dysgu a Datblygu
Sgiliau Cymraeg	Parhau gyda mentora anffurfiol er mwyn cynorthwyo mewn ffyrdd ymarferol, megis datblygu a chynorthwyo'r rhai sy'n dysgu Cymraeg	Parhaus	Tîm Dysgu a Datblygu a'r Tîm Gwasanaethau Corfforaethol
	Adolygu'r ddogfen hunanasesu mewn perthynas â sgiliau Cymraeg cyflogeion newydd	Medi 2021	Tîm Gwasanaethau Corfforaethol a'r Tîm AD
Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg	Llunio rhaglen o ddigwyddiadau ar draws y Gymdeithas a fydd yn cynnwys Diwrnodau Cymraeg yn y Gwaith ar Ddiwrnod 'Shwmae Su'mae' a Dydd Gŵyl Dewi er mwyn parhau i hyrwyddo'r iaith Gymraeg ar draws y Gymdeithas	Parhaus	Tîm Gwasanaethau Corfforaethol
	Adolygu protocolau'r iaith Gymraeg a'u hyrwyddo ar draws y Grŵp	Awst 2021	Tîm Gwasanaethau Corfforaethol
	Cefnogi digwyddiadau a mentrau Cymraeg yn y gymuned sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg e.e., Ras yr Iaith, ras hwyl yn y Gymraeg er mwyn codi ymwybyddiaeth ac er mwyn cefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg yn y gymuned	Parhaus	Tîm Gwasanaethau Corfforaethol

Eitem B 10.02 ar yr Agenda

Gweithredu	Tasg	Dyddiad targed	Grŵp sy'n gyfrifol
	Parhau a datblygu ein partneriaethau gyda phartneriaid Menter Iaith, ysgolion a Chylchoedd Meithrin yn y gymuned	Parhaus	Tîm Tai a'r Tîm Gwasanaethau Corfforaethol
	Parhau i roi diweddariadau i staff am ddatblygiadau o ran Safonau'r Gymraeg, y gallent effeithio ar y ffordd y mae'r Gymdeithas yn darparu gwasanaethau'n allanol ac yn fewnol pan fo hynny'n briodol	Parhaus	Tîm Gwasanaethau Corfforaethol
	Parhau gyda'r ymrwymiad i noddi 'Clwb Miliwn' dros y ddwy flynedd nesaf, er mwyn cynorthwyo gyda datblygiad y prosiect	Parhaus	Tîm Gwasanaethau Corfforaethol
	Adolygu'r tudalennau Cymraeg ar fewnrwyd y staff ac ar ôl cwblhau hyn, eu hyrwyddo ar draws y Grŵp	Medi 2021	Dysgu a Datblygu a'r Tîm Gwasanaethau Corfforaethol
	Cynnal a hwyluso Sesiwn Gymraeg yng Ngŵyl Rhith WWH	Mai 2021	Tîm Gwasanaethau Corfforaethol a'r Tîm CC a Chyfathrebu
Dewis iaith	Adolygu'r arferion presennol mewn perthynas â chasglu data ar gyfer proffiliau preswylwyr er mwyn cynyddu swm y wybodaeth a gaiff ei dal, yn enwedig mewn perthynas â dewisiadau iaith	Medi 2021	Tîm Gwasanaethau Corfforaethol
	Cofnodi a monitro'r ceisiadau dewis Cymraeg dros y ffôn.	Parhaus	TGCh
Adrodd am yr iaith Gymraeg	Adrodd i'r Bwrdd bob blwyddyn a'i gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg	Mawrth 2022	Tîm Gwasanaethau Corfforaethol
Monitro	Monitro bod y systemau sydd mewn grym yn cefnogi dull cyson tuag at gyflawni dewisiadau iaith ar draws y Gymdeithas	Parhaus	Tîm Gwasanaethau Corfforaethol